## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion Heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 11 Gorffennaf 2002

**NDM1165 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

**NDM1166 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd trwy'r e-bost at yr Aelodau ar 4 Gorffennaf 2002;

2. Yn cymeradwyo:
a. bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002; a
b. yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002

**NNDM1137 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii), yn ystyried egwyddor y Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Ieir Dodwy, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf 2002 ac a anfonwyd trwy'r e-bost at yr Aelodau ar 11 Gorffennaf 2002.

**NNDM1138 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii), yn ystyried y Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Ieir Dodwy, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf ac a anfonwyd trwy'r e-bost at yr Aelodau ar 11 Gorffennaf 2002.

**Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 12 Gorffennaf 2002**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu cyflwyno’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NNDM1166**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt 2 newydd, ac ailrifo yn unol â hynny:

'Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y cytunwyd arno ar 19 Mehefin 2002.'

Gallwch ddefnyddio’r cysylltiad isod i ddod o hyd i adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y Fewnrwyd:

http://assembly/committees/Agriculture%20&%20Rural%20Development/2002/10-02%20(19%20June)/plenaryreportonWelfareoffarmedanimals.html